Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

Conwy Valley and North West Wales Coast Community Rail Partnership

Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru Canllawiau i Ymgeiswyr

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Cronfa Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Cwm Conwy a Gogledd Orllewin Cymru

Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â:
Philip Jones: 01492 523843 e-bost: philipjones@cvsc.org.uk

Beth yw Cronfa Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru?

Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd sefydliadau sydd wedi cael eu heffeithio efallai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y pandemig. Efallai bod codi arian wedi gorfod dod i ben a bod ffrydiau incwm arferol eraill wedi diflannu neu efallai bod costau wedi codi oherwydd bod mwy o wirfoddolwyr yn cael eu paratoi.

Y prif feini prawf yw bod grwpiau'n gallu dangos sut bydd y cyllid yn helpu i gynnal y sefydliad yn y dyfodol a chadw gwasanaethau i fynd. Nid oes angen cysylltiad uniongyrchol â'r pandemig o reidrwydd. Bydd angen i'r grŵp hefyd nodi ar gyfer beth fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio a sut mae hyn o fudd i'r gymuned leol.

Trosolwg o Bartneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru

Bydd y Rheilffordd Dyffryn Conwy Grantiau'n darparu cyfleoedd cyllido rhwng

. **£500.00**

Sut gellir defnyddio'r grant?

Yn fwriadol, mae meini prawf y grant yn amhenodol, er mwyn gallu ystyried ystod eang o weithgareddau. Mor bell y gall y grŵp ddangos yr effaith ar y gymuned, a sut bydd y cyllid yn helpu eu cynnal nhw fel grŵp neu eu gweithgaredd, byddwn yn ystyried eu cais.

Gellir defnyddio'r grant i gyflenwi prosiectau sy'n gysylltiedig â Coronafeirws ai peidio; gall fod ar gyfer gwaith ieuenctid, gwasanaethau iechyd meddwl, prosiectau celf, cefnogi'r henoed, gwasanaeth cwnsela, trais domestig, prosiectau BAME, addysg, cymorth ym maes anabledd, grymuso ar lefel leol - enghreifftiau'n unig yw'r rhain. Nid oes rhaid gwario'r arian ar gostau prosiect, gellir ei ddefnyddio ar gyfer costau rhedeg, gan gynnwys staff, biliau, rhent neu waith cynnal a chadw mor bell y gellir dangos nad yw'n bosib talu'r costau hyn trwy ddull arall, ac y bydd yn helpu'r sefydliad aros yn weithgar ac yn gynaliadwy..

Sefydliadau Cymwys

Cyn gwneud cais am grant, bydd rhaid i sefydliadau sydd yn **yr ardal benodol a fydd yn elwa*** fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau neu ddogfen lywodraethu, a bydd rhaid iddynt fod â chyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda dau lofnodwr o leiaf wedi'u pennu.

Dyma'r Sefydliadau Cymwys a gaiff wneud cais am gyllid:
Gall unrhyw sefydliad cymunedol, elusen, CBC neu grŵp sydd â chyfrif banc ac a leolir o fewn 8km/5milltir i un o Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru ymgeisio am grant. Os na leolir y sefydliad o fewn y pellter uchod, ond mae'n gallu dangos sut y bydd y cyllid grant yn cefnogi cymuned o fewn y pellter hwnnw, byddai hynny'n dderbyniol. Ni chaniateir i unigolion, busnesau a chyrff statudol ymgeisio, ac nid yw elusennau cenedlaethol yn gallu ymgeisio oni bai taw cangen leol sy'n cyflwyno'r cais..* ***Gweler y map ar dudalen 5 & 6***

Eithriadau

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer y canlynol:

- Sefydliadau masnachol
- Unigolion
- Unrhyw waith a ystyrir fel cyfrifoldeb statudol, fel gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u hamserlennu a gwaith ar briffyrdd cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus
- Prosiectau crefyddol eu ffocws, prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos gan blaid wleidyddol, neu brosiectau a fydd yn dwyn anfri ar y cyllid neu'r cyllidwr
- Cyllid am yn ôl, h.y. prosiectau sydd wedi'u cwblhau eisoes, boed wedi talu amdanynt ai peidio
- Creu cronfa neu warged, i'w ddosbarthu ai peidio
- Ni all sefydliadau heb ddau lofnodwr (ni ddylent fod yn perthyn) ar gyfer pob trafodiad ariannol wneud cais

Ble mae gorsafoedd Rheilffyrdd Cymunedol Cwm Conwy/ Gogledd Orllewin Cymru?

Gorsafoedd Rheilffordd Cwm Conwy

O'r gogledd i'r de maent fel a ganlyn: Blaenau Ffestiniog, Roman Bridge, Dolwyddelan, Pont-y-Pant, Betws-y-Coed, Llanrwst, North Llanrwst, Dolgarrog, Tal-y-Cafn, Glan Conwy, Llandudno Junction, Deganwy & Llandudno

Gorsafoedd Llinell Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

O'r gogledd i'r de maent fel a ganlyn: Caergybi, Y Fali, Rhosneigr, Ty Croes, Bodorgan, Llanfairpwll, Bangor, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy & Llandudno Junction

Llenwi'r Ffurflen Gais

Adran 1: Amdanoch chi/eich sefydliad

- Dywedwch wrthym pwy ydych chi a ble / sut mae cysylltu â chi?
- Pa fath o sefydliad ydych chi? (e.e. Clwb/cymdeithas wirfoddol, clwb/sefydliad ieuenctid, elusen, cyngor tref/cymuned, grŵp amgylcheddol ac ati)
- Beth mae eich clwb yn ei wneud (ee, Clwb Cyfeillgarwch sy'n trefnu gweithgareddau i bobl hŷn)

Adran 2: Am eich prosiect

- Dywedwch wrthym am eich prosiect……...
- Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam ydych chi eisiau ei wneud?
- Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud yn eich cymuned / i'ch grŵp / yr adeilad / i'ch aelodau?
- A fydd yn darparu cyfle i bobl gymryd rhan a gwirfoddoli?
- Faint o bobl fydd yn elwa o'r prosiect yn eich barn chi?
- Faint o wirfoddolwyr sydd / fydd yn cymryd rhan?
- Pryd ydych chi eisiau dechrau a dywedwch wrthym pryd fydd y prosiect yn gorffen.
- Cewch ysgrifennu mewn paragraffau, pwyntiau bwled neu barhau ar ddalen arall o bapur – ond ceisiwch fod yn gryno, peidiwch ag ysgrifennu traethawd!

Adran 3: Manylion Ariannol

- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Dylech restru pob eitem rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cofiwch gynnwys y gost net, y TAW a chyfanswm y gost.
- Yn olaf, ar waelod yr adran hon, nodwch faint o grant rydych chi'n gwneud cais amdano.

Gwybodaeth Werthfawr Arall:

- Mae cronfa Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru yn gallu cefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw.

- Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth y gymuned i brosiect drwy gyfrwng llythyrau neu negeseuon e-bost annibynnol (Uchafswm o 3).

Ar ôl derbyn unrhyw grant:

Bydd y person cyswllt yn derbyn llythyr / e-bost sy'n amlinellu penderfyniad y panel. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gytuno i'r canlynol:

- Cyflwyno derbynebau am yr holl wariant.
- Defnyddio'r arian yn union fel y nodwyd yn eich cais.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfodir Gogledd Orllewin Cymru.

COFIWCH SIARAD Â SWYDDOG YN CGGC CYN CYFLWYNO EICH CAIS.

DIOGELU DATA AC AWDURDODI DEFNYDD
Bydd Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy, gan weithredu ar ran **Transport for Wales**, yn defnyddio manylion a gyflwynir yn fewnol at ddibenion gweinyddol. Gan fod modd dosbarthu rhywfaint o'r wybodaeth yn "ddata personol", caiff ei phrosesu yn unol â hawliau a rhwymedigaethau Deddf Diogelu Data 1998.

Dychwelwch y Ffurflenni Cais wedi'u llenwi at:

Philip Jones
CVSC
7 Ffordd Rhiw
Colwyn Bay
Conwy
LL29 7TG
Email : philipjones@cvsc.org.uk


Amlwch
Penbol
Marian-glas
Benllech
Holyhead
Holy Island
Trearddur Bay
Valley
Anglesey
Llangefni
Beaumaris
Llandudno
Rhos on Sea
Llandudno Junction
Llandudno Junction
Conwy
Penmaenmawr
Llanfairfechan
Abergwyngregyn
A55
Rhosneigr
Llanfaelog
Ty Croes
Bodorgan
Gaerwen
Llanfairpwll
Bangor
46 min
Tal-y-cafn
Trofa
A470
Dolgarrog
A487
Niwbwrch
Llanddoged
Caernarfon
Llanrwst
Llanfaglan
Llanberis
A5
Capel Curig
Snowdonia

Llandudno
Deganwy
Llandudno Junction
Glan Conwy
Tal-y-Cafn
Dolgarrog
North Llanrwst
Llanrwst
Betws-y-Coed
Pont-y-Pant
Dolwyddelan
Roman Bridge
Blaenau Ffestiniog
0
2
Kilometer
10